



*Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency*

Adnewyddu Menter

Prosiect LEADER sy'n darparu cymorth ariannol a mentora, i gynorthwyo mentrau yn ardal wledig Gogledd Ddwyrain Cymru arloesi ac adfer yn dilyn Covid-19.

Oherwydd mai dim ond hyn a hyn o gymorth sydd ar gael, mae'r cynllun hwn yn fwyaf addas i ficrofusnesau a busnesau bach newydd.

Nodiadau Canllaw

Cymraeg

Fersiwn: 1.2

Ionawr 2022



Adnewyddu Menter

Nodiadau Canllaw

CYNNWYS

Tudalen

1.	Beth yw Adnewyddu Menter?	3
2.	Sut i gael cyngor a chyflwyno cais	3
3.	Pwy sy'n cael gwneud cais?	3
4.	Yr Ardal Gymwys	4
5.	Pa gymorth sydd ar gael gan Busnes Cymru?	5
6.	Pa gymorth grant sydd ar gael?	5
7.	Llenwi Ffurflen Mynegi Diddordeb	7
8.	Llenwi Ffurflen Gais	8
9.	Y Broses Cyflwyno Cais	12
10.	Telerau ac Amodau	13

Atodiadau

A.	Wardiau cymwys ac anghymwys	15
B.	Llenwi Ffurflen Hawlio Taliad	19

1. Beth yw Adnewyddu Menter?

Bydd y cynllun Adnewyddu Menter yn rhoi cymorth uniongyrchol i fentrau bach a micro yn ardaloedd gwledig Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam adfer yn dilyn pandemig Covid-19 trwy ddarparu grant 50%, hyd at uchafswm o £5,000 (cyfanswm gwariant ar y prosiect yn £10,000), tuag at gostau'n gysylltiedig â chyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd. Bydd mentrau cymdeithasol a chymunedol yn cael cyflwyno cais, yn ogystal â busnesau. Canolbwyntir ar gefnogi cyflwyno technolegau arloesol a ffyrdd newydd o gynnal busnes. Bydd y gwersi a ddysgwyd o brofiadau mentrau'n cyflwyno'r cynhyrchion a'r prosesau newydd yn cael eu casglu a'u rhannu i hysbysu'r sector ehangach.

Cyllidir y prosiect trwy LEADER, sy'n cefnogi prosiect datblygu gwledig wedi'u hysgogi ar y lefel leol i adfywio ardaloedd gwledig a chreu swyddi. Mae'n rhan o Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 – 2020, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

2. Sut i gael cyngor a chyflwyno cais

Y man cyswllt cyntaf i unrhyw un â diddordeb yn y cynllun yw sgwrsio gyda **Chydlynnydd y Prosiect Adnewyddu Menter**.

Rhif ffôn: 07921 787 668

E-bost: AdnewydduMenter@barsbyassociates.com

Bydd yn medru:

- Darparu gwybodaeth am y cynllun Adnewyddu Menter
- Ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi
- Gwirio a ydych chi'n gymwys i wneud cais
- Trafod eich syniadau ar gyfer y grant cynhyrchion a/neu brosesau newydd
- Eich cynorthwyo gyda llenwi'r Ffurflen Mynegi Diddordeb
- Os yw eich prosiect chi'n gymwys, trefnu cymorth busnes gan gynghorydd Busnes Cymru
- Cynorthwyo ymgeiswyr llwyddiannus gyda llenwi'r ffurflen hawlio taliad.

3. Pwy sy'n cael gwneud cais?

Caiff mentrau bach a micro yn ardaloedd gwledig Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam wneud cais. Oherwydd mai dim ond hyn a hyn o gymorth sydd ar gael, mae'r cynllun hwn yn fwyaf addas i ficrofusnesau a busnesau bach newydd. Bydd mentrau cymdeithasol a chymunedol yn medru gwneud cais hefyd, yn ogystal â busnesau.

- Mae gan **fusnes micro** lai na 10 cyflogai ac un ai drosiant o hyd at €2 miliwn neu gyfanswm ar y fantolen o hyd at €2 miliwn
- Mae gan **fusnes bach** lai na 50 cyflogai ac un ai drosiant o hyd at €10 miliwn neu gyfanswm ar y fantolen o hyd at €10 miliwn
- **Busnesau newydd** nad ydynt yn fwy na busnes bach

Mae'r ymgeiswyr cymwys yn cynnwys:

- Masnachwyr unigol

- Partneriaethau
- Cwmnïau cyfyngedig
- Cydweithredfeydd
- Mentrau cymdeithasol

Mae'r rhan fwyaf y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau yn gymwys. Nid yw busnesau a chostau amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth yn gymwys. Nid yw prosesu cynhyrchion amaethyddol i gynhyrchu cynhyrchion amaethyddol eraill yn gymwys. Nid yw busnesau a chostau cludo llwythi ar y ffyrdd yn gymwys ychwaith. Nid yw marchnata amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a chludiant cludo llwythi yn gymwys. Hefyd nid yw gweithgareddau'n gysylltiedig ag allforio a chymorth sy'n dibynnu ar ddefnyddio nwyddau domestig yn hytrach na nwyddau wedi'u mewnforio yn gymwys.

Gellir cael canllawiau ynghylch ffyrddiau cyllid amgen ar gyfer busnesau amaethyddol gan Cyswllt Ffermio (08456 000 813), a bydd Cydlynedd y Prosiect Adnewyddu Menter yn darparu rhagor o gyngor.


Ni chaiff unrhyw fudiad sy'n cyflwyno cais gael mwy nag un prosiect cymeradwy dan y cynllun hwn.

4. Yr Ardal Gymwys

Mae'n rhaid i fentrau feddu ar gyfeiriad gweithredol mewn ward etholiadol cymwys yn ardaloedd y prosiect Adnewyddu Menter yn **Sir Ddinbych, Sir y Fflint neu Wrecsam wledig**. Nodwyd yr ardaloedd cymwys hyn gan Lywodraeth Cymru.

Mae tudalen hafan Cadwyn Clwyd yn cynnwys gwiriwr cymhwysedd cod post defnyddiol iawn. Fe'i lleolir ddau draean i lawr y dudalen, ar yr ochr dde. Rhaid mewnbynnu cod post heb unrhyw wagleoedd (er enghraifft, LL210AH):

<http://cadwynclwyd.co.uk/>



*Sylwer y gallai codau post wardiau etholiadol Dyserth, Canol Treffynnon, Dwyrain Treffynnon, Gorllewin Treffynnon a Chefn ymddangos yn anghymwys fel wardiau Canolfan Gwasanaethau, ond mewn gwirionedd maent yn gymwys ar gyfer y cynllun Adnewyddu Menter hwn.

Ceir rhagor o fanylion ynghylch wardiau cymwys ac anghymwys ymhob sir yn Atodiad A.

5. Pa gymorth Busnes Cymru sydd ar gael?

Bydd mentrau cymwys sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y cynllun, ac sy'n gymwys a'u Ffurflen Mynegi Diddordeb wedi'i chymeradwyo, yn cael eu cyfeirio at gynghorydd Busnes Cymru a fydd yn rhoi cymorth i'r ymgeisydd lunio Cynllun Busnes a Rhagfynegiad Llif Arian i gefnogi eu cais. Trefnir hyn gan Gydlynnydd y Prosiect Adnewyddu Menter.

Mae Busnes Cymru'n darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, micro, bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth ddarparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra, yn cynnwys cyrchu cynghorwyr cyffredinol ac arbenigol, gweithdai a gweminarau, pecynnau ar-lein a mentoriaid. Yn ychwanegol at weithio gyda chi ar gynllun diagnosis busnes a chynllun gweithredu, gall cynghorwyr Busnes Cymru ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a'ch cynorthwyo i gael gafael ar gymorth perthnasol arall. Os hoffech ddysgu rhagor, ewch i <https://businesswales.gov.wales/cy>

6. Pa gymorth grant sydd ar gael?

Bydd ymgeiswyr yn llenwi ffurflen gais am grant 50%, hyd at uchafswm gwerth £10,000 (a fyddai'n cynrychioli £5,000 o gyllid grant a £5,000 o gyllid cyfatebol gan yr ymgeisydd) tuag at gostau'n gysylltiedig â chyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd. Y gwerth cais isafswm yw £2,000 (a fyddai'n cynrychioli £1,000 o gyllid grant a £1,000 o gyllid cyfatebol gan yr ymgeisydd).

Pa gostau sy'n gymwys?

- **Costau sy'n galluogi mentrau i gyflwyno prosesau newydd.** Er enghraifft, costau prynu offer sy'n caniatáu i'r fenter newid eu deunydd pecynnu i ddeunydd amgen mwy cynaliadwy'n amgylcheddol. Gallai hefyd gynnwys meddalwedd ar gyfer rheoli'r stocrestr, neu dalu am wasanaethau i ddatblygu proses fasnachu electronig ar gyfer bwcio neu brynu cynhyrchion neu wasanaethau.
- **Costau sy'n galluogi menter i ddatblygu a chynhyrchu cynhyrchion newydd.** Er enghraifft, gallai hyn gynnwys costau prynu, llogi neu lesio offer a pheiriannau i ddylunio neu gynhyrchu cynhyrchion newydd.

Blaenoriaeth allweddol i'r prosiect yw cefnogi mentrau i gyflwyno cynhyrchion a/neu brosesau newydd nad yw'r fenter wedi'u cynnig o'r blaen. Canolbwyntir ar gefnogi cyflwyno technolegau arloesol a ffyrdd newydd o gynnal busnes. Bydd cynigion arloesol yn y ceisiadau grant yn sgorio'n uchel yn y broses arfarnu'r cais. Gall prosesau newydd wella cynhyrchedd, cynyddu trosiant, proffidioldeb a chyfran y farchnad, trwy wneud y busnes yn fwy cystadleuol. Byddai'r prosiectau cymwys yn nodweddiadol yn cynnwys ehangu, arallgyfeirio a moderneiddio'r busnes presennol. Gallai'r gwariant fod yn fuddsoddi newydd mewn asedau, fel offer, neu ddatblygu strategaeth farchnata neu ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth i gryfhau a chyfoethogi'r busnes cyfredol.

Rhaid i'r holl gostau cymwys fod yn gysylltiedig â chyflwyno cynhyrchion neu brosesau newydd. Gallai costau cymwys enghreifftiol gynnwys:

- Prynu neu logi / lesio peiriannau ac offer newydd
- Prynu peiriannau ac offer ail law, cyn belled ag y bodlonir yr amodau isod:
 - Ni ddylai'r pris prynu fod yn uwch na'i werth cyfredol ar y farchnad, o gofio ei oedran a'i gyflwr
 - Ni ddylai'r gost fod yn uwch na phris offer newydd tebyg
 - Rhaid i'r gwerthwr ddarparu datganiad ysgrifenedig (bydd neges e-bost neu nodyn cryno yn ddigonol) yn cadarnhau na chafodd yr offer ei brynu gyda chyfraniad gan grantiau cyhoeddus y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd

- Costau gosod
- Ffioedd proffesiynol am wasanaethau
- Strategaethau marchnata a/neu gostau marchnata cynhyrchion neu brosesau newydd
- Technoleg gwybodaeth, ddigidol a chyfathrebu
- Caledwedd a/neu feddalwedd cyfrifiadurol a rhwydwaith
- Technoleg band eang
- Datblygu gwefan ac ap
- Systemau cyfrifyddu / stocrestr / archebu
- Ynni cynaliadwy / adnewyddadwy
- Prosiectau lleihau gwastraff ac ailgylchu
- Gwella'r safle

Dim ond eitemau 'Cyfalaf' neu waith sydd wedi'i ariannu gyda'r cyllid grant sydd â chyfanswm gwerth o £10,000.00 neu lai sy'n gymwys (gan gynnwys TAW na ellir ei adennill).

Pa gostau sy'n anghymwys?

Nid yw'r eitemau a ganlyn yn gymwys:

- prynu stoc masnach, tir neu adeiladau
- prynu ceir, faniau, motobeics, beiciau ac unrhyw ffurf arall o gludiant personol (at ba bynnag bwrpas)
- prynu cerbydau ar gyfer trafndiaeth allanol (megis lorïau, bysiau, faniau, bysiau mini neu unrhyw fath arall o gerbyd a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl)
- unrhyw waith ffisegol ar y safle neu wariant arall cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan roddwr y grant
- gwaith dros dro nad ydynt yn ymwneud **yn uniongyrchol** â gweithredu'r prosiect
- costau cynnal a chadw adeiladau, peiriannau neu offer sy'n bodoli eisoes
- adnewyddu tebyg am debyg
- costau'n gysylltiedig â chytundeb lesio megis ffin elw'r lesydd, costau cyllido llog, gorbenion a ffioedd yswiriant
- costau trefnu benthyciadau, Treth ar Werth a threthi eraill y gall y buddiolwr eu hadfer, costau gweinyddol a staffio neu iawndal a dalwyd i drydydd partïon am ddifeddiant ac ati
- gorbenion wedi'u dyrannu neu eu dosrannu ar gyfraddau'n sylweddol uwch na chyfraddau ar gyfer costau tebyg trwy fecanweithiau cyflawi eraill cymaradwy
- gwariant tybiannol
- taliadau am weithgarwch o natur gwleidyddol
- dibrisiant, amorteiddio ac amhariad asedau a brynwyd gyda chymorth grant Ewropeaidd
- darpariaethau
- atebolrwyddau annisgwyl
- cronfeydd wrth gefn
- difidend i gyfranddalwyr
- taliadau llog (oni bai dan gynllun Cymorth Gwladol cymeradwy)
- ffioedd gwasanaeth yn deillio o drefniadau les cyllid, hur brynu a chredyd
- costau'n deillio o oedi taliadau i gredydwy
- costau'n gysylltiedig â dirwyn cwmni masnachol i ben
- taliadau ar gyfer pensiynau heb eu cyllido
- iawndal am golli swydd
- dyledion drwg yn deillio o fenthyciadau i gyflogeion, perchnogion, partner gyfarwyddwyr, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu unigolyn yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am anrhegion a chyfraniadau
- adloniant personol (yn cynnwys alcohol)

- dirwyon a chosbau statudol
- dirwyon ac iawndal troseddol
- costau cyfreithiol yng nghyswllt cyfreitha
- Treth ar Werth y gellir ei hawlio'n ôl
- Costau swyddogion sefydliadau trydydd parti
- Unrhyw wariant sydd â chyllid dyblyg gan drydydd parti, sydd er yr un diben â chais i Enterprise Renewal ond sydd heb ei ddatgan i Cadwyn Clwyd.

Mae eitemau Cyfalaf neu waith a brynwyd gyda'r arian grant sydd gyda'i gilydd yn werth mwy na £10,000.00 yn anghymwys (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill). Mae'r gwerth o £10,000.00 yn berthnasol i gyfanswm cost yr eitemau hyn, hyd yn oed os byddai'r grant yn talu cyfraniad sy'n is na'r gwerth hwn tuag at y cyfanswm gost.

Nid yw busnesau a chostau amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth yn gymwys. Nid yw prosesu cynhyrchion amaethyddol i gynhyrchu cynhyrchion amaethyddol eraill yn gymwys. Nid yw busnesau a chostau cludo llwythi ar y ffyrdd yn gymwys ychwaith. Nid yw marchnata busnesau amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a chludiant cludo llwythi yn gymwys. Hefyd nid yw gweithgareddau'n gysylltiedig ag allforio a chymorth sy'n dibynnu ar ddefnyddio nwyddau domestig yn hytrach na nwyddau wedi'u mewnfario yn gymwys.

Nid yw cyfalaf gweithiol yn cyfrif fel gwariant cymwys. Ni ellir defnyddio'r grant i ailgyllido atebolrwyddau cwmni.

Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hanelu at greu neu ddiogelu cyfleoedd cyflogaeth, felly, petai prosiect llwyddiannus yn colli swyddi o ganlyniad i gymorth, gallai'r grant gael ei ostwng neu ei adfachu.

Dylid gofyn am gyngor gan Gydlynnydd y Prosiect Adfywio Menter lle bo ansicrwydd.

Cyllid Cyfatebol

Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu isafswm o 50% o gyllid cyfatebol tuag at gostau eu cais grant. Bydd angen i'r ymgeisydd ddangos ar y ffurflen gais sut mae'r cyllid cyfatebol 50% hwn yn cael ei gyllido. Nid yw cyfraniadau o fath arall ('in kind') yn gymwys.

Ni chaiff y cyfraniad cyllid cyfatebol arian parod i'w roi i'r prosiect gynnwys unrhyw gronfeydd sy'n cynnwys neu a ddefnyddiwyd eisoes i ddenu cyllid Undeb Ewropeaidd.

Gallai'r cyllid cyfatebol ddod o adnoddau'r ymgeisydd ei hun, neu trwy gyllid sector preifat arall (banciau ac ati). Gellir gofyn am gyngor ynghylch cyllid cyfatebol cymwys gan Gydlynnydd y Prosiect Adnewyddu Menter.

7. Llenwi Ffurflen Mynegi Diddordeb

Mae Ffurflenni Mynegi Diddordeb ar gael yn electronig gan Gydlynnydd y Prosiect Adnewyddu Menter, a fydd yn rhoi cyngor cyn i chi llenwi a dychwelyd y ffurflen. Mae'r holl ffurflenni a nodiadau canllaw ar gael yn Saesneg hefyd. Dylid llenwi'r blychau gwyn yn y ffurflen mor drwyadl ag y bo modd a gellir eu ehangu i roi mwy o wybodaeth. Caniateir cyflwyno un Ffurflen Mynegi Diddordeb ar y tro gan unrhyw fenter. Bydd Ffurflenni Mynegi Diddordeb a gymeradwyir yn bwrw ymlaen i'r cam nesaf a threfnir atgyfeirio at gynghorydd Busnes Cymru i roi cymorth ac arweiniad gyda cham nesaf y broses cyflwyno cais.

8. Llenwi Ffurflen Gais

Mae ffurflenni cais ar gael gan Gydlynnydd y Prosiect Adnewyddu Menter. Rhaid gofyn am gyngor gan Gydlynnydd y Prosiect Adnewyddu Menter cyn llenwi ffurflen gais. Mae'r holl ffurflenni a nodiadau canllaw ar gael yn Saesneg. Dylid llenwi'r ffurflen gais yn electronig. Dylid llenwi'r blychau gwyn yn y ffurflen gais mor drwyadl ag y bo modd. Gellir ehangu blychau er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth. Dim ond un ffurflen gais a dderbynnir gan fusnes neu grŵp o fusnesau. Rhaid i geisiadau gael eu datblygu gyda chynghorydd Busnes Cymru ac yna eu cyflwyno gan berchennog y busnes ac nid asiant yn gweithredu ar eu rhan, fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na all ymgeiswyr gael cymorth gyda llenwi'r ffurflen.

I gyflwyno cais:

- Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno Ffurflen Mynegi Diddordeb yn gyntaf a rhaid i'r cynnig gael ei gymeradwyo
- Rhaid cyflwyno cynllun busnes 12 mis hyfyw gyda'r ffurflen gais
- Rhaid darparu rhagfynegiad llif arian 12 mis (dylid cyflwyno hyn mewn fformat misol ac nid y flwyddyn gyfan)
- Rhaid dangos isafswm o 50% cyllid cyfatebol i swm y grant a geisir
- Bod â mynediad i gyfrif banc busnes o ran y busnes sy'n ymgeisio am y grant.

Llenwi'r Ffurflen Gais:

Adran 1: Manylion yr Ymgeisydd

Dylai'r ymgeisydd nodi enw'r busnes a'r manylion cyswllt yma. Rhaid i gyfeiriad y busnes fod yn yr ardal wledig gymwys er mwyn derbyn y grant. Dylid dynodi pa un yw'r cyfeiriad gohebiaeth i'w ddefnyddio. Dylai'r ymgeisydd feddu ar yr awdurdod i gyflwyno'r cais ar ran y busnes a enwir. Caiff pob busnes a enwir ymgeisio unwaith yn unig.

Cyfeirnod y Cwsmer

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd feddu ar Gyfeirnod y Cwsmer Llywodraeth Cymru cyn bwrw ymlaen. Mae'n rhaid i'r holl sefydliadau sy'n derbyn taliadau gan Lywodraeth Cymru gael un. Os nad oes gennych chi gyfeirnod eisoes medrwyh gynhyrchu un trwy fewngofnodi ar wefan Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein:

<https://llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein>

- a) Clicio'r botwm gwyrdd 'Mewngofnodwch' i fewngofnodi
- b) Yna 'Creu manylion mewngofnodi'
- c) Bydd angen ateb yr holl gwestiynau, e.e. pam bod arnoch chi angen Cyfeirnod y Cwsmer? – 'derbynnydd cronfeydd Rhaglen Datblygu Gwledig LEADER'
- d) Bydd Cyfeirnod y Cwsmer darpariaethol yn cael ei greu ar y pwynt hwn. Cadwch gofnod o'r rhif ar gyfer eich sefydliad
- e) Bydd angen argraffu, llofnodi ac anfon ffurflen BACS i Swyddfa Caernarfon Llywodraeth Cymru. Gwnewch yn siwr eich bod yn cwblhau'r cam hwn, os gwelwch yn dda, er y byddwch yn hawlio trwy Cadwyn Clwyd. Bydd methu â chwblhau'r cam hwn yn arwain at oedi cyn trosglwyddo eich taliad grant
- f) Dylech dderbyn llythyr yn cadarnhau bod Cyfeirnod y Cwsmer yn weithredol. Os nad ydych wedi derbyn y llythyr hwn bydd angen i chi gysylltu â Swyddfa Caernarfon Llywodraeth Cymru i wneud ymholiadau
- g) Gall ymgeiswyr gysylltu â Chanolfan Gyswllt Taliadau Gwledig Cymru ar 0300 062 5004 os ydynt yn wynebu problemau

- h) Mae Llywodraeth Cymru yn eich hysbysu chi am unrhyw ymholiadau ynghylch eich cais am Gyfeirnod y Cwsmer trwy eich cyfrif ar-lein Taliadau Gwledig Cymru (RPW). Gwiriwch y negeseuon ac ymateb i unrhyw ymholiadau gan Lywodraeth Cymru yn ddioed, os gwelwch yn dda, i osgoi oedi cyn derbyn eich taliad grant

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-01/rpw-online-how-to-register.pdf>

Adran 2: Manylion y Busnes

Yn yr adran hon gofynnwn am ychydig o baragraffau'n rhoi manylion am yr hyn mae eich busnes chi yn ei wneud a'i hanes. Dylid nodi pryd y dechreuodd y busnes yn glir. Dylid rhoi tic mewn un blwch i ddangos beth yw cyfansoddiad y busnes. Dylai nifer y cyflogeion amser llawn a rhan amser fod yn hafal i gyfanswm nifer y cyflogeion. Nodwch, os gwelwch yn dda, fod angen dogfennau cefnogol ychwanegol gyda'r cais: cyfrifon y flwyddyn ddiwethaf a rhagfynegiad llif arian ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Adran 3: Gwybodaeth Ariannol Allweddol y Busnes

Dylid rhoi manylion ariannol allweddol y tair blynedd ddiwethaf yma. Os yw'r busnes wedi bod yn masnachu am lai na thair blynedd, yna dylid darparu'r manylion am y blyneddau y bu'n masnachu.

Adran 4: Manylion y Prosiect

Ni chaiff y prosiect fod wedi dechrau eisoes cyn cyflwyno neu gymeradwyo'r cais. Ni chaiff yr eitemau y ceisir y grant ar eu cyfer fod wedi'u prynu eisoes. Ni ellir dyfarnu cyllid yn ôl-weithredol. Ni chaiff dyddiad gorffen y prosiect fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2022. Rhaid cwblhau'r prosiect erbyn y dyddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys yr amser ar gyfer llenwi'r ffurflen hawlio'r grant a'i chyflwyno i Cadwyn Clwyd am daliad.

Dylai'r ymgeisydd roi manylion pa gynhyrchion a/neu brosesau newydd fydd yn cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r grant hwn. Y mwyaf arloesol yw'r prosiect, yr uchaf fydd y sgôr yn y broses arfarnu'r cais. Dylai'r cynhyrchion a/neu brosesau newydd fod yn weithgareddau newydd i'r busnes.

Dylid rhoi manylion clir yr eitemau i'w prynu gyda'r grant a dylid esbonio sut y bydd yr eitemau hyn yn caniatáu i'r busnes gyflwyno'r cynhyrchion a/neu'r prosesau newydd.

Anogir y busnes i ddangos ar y ffurflen gais na fyddai'r prosiect yn bwrw ymlaen heb y cymorth grant, neu y byddai ar raddfa llawer llai, neu byddai'n digwydd yn rhywle arall.

Adran 5: Cyllid y Prosiect

Dylid rhoi manylion yr eitemau i'w prynu yma, ynghyd a dyfynbrisiau ar eu cyfer. Yn achos eitemau sy'n costio llai na £4,999 mae angen un dyfynbris; o ran eitemau sy'n costio mwy na £4,999 mae tri dyfynbris yn ofynnol. Rhaid darparu copi o'r dyfynbrisiau ar gyfer pob eitem gyda'r ffurflen gais. Ni ddylai'r ffigurau gynnwys Treth ar Werth os ydych chi wedi eich cofrestru ar gyfer TAW.

Cadwch y ffurflen gais a'r broses hawlio yn syml trwy wneud yr isod:

- Cynnwys hyd at 10 eitem / trafodion yn unig yn y ffurflen gais
- Peidio â chynnwys costau staffio / cyflogau neu unrhyw gostau staffio cysylltiedig (e.e. costau teithio, cynhaliaeth ac ati)
- Peidio â chynnwys costau stoc masnachu na chostau nwyddau traul yn eich cais
- Dim eitemau wedi'u dosrannu
- Talu pob anfoneb ar wahân fel y gellir cyfateb y taliadau'n hawdd gyda'ch datganiad banc

- Osgoi talu am eitemau a gynhwysir yn y grant yn yr un taliad ag eitemau eraill ar gyfer eich cwmni (neu bydd angen i chi ddarparu anfonebau a thystiolaeth yn ymwneud â phob pryniant yn gysylltiedig â'r taliad hwnnw)
- Bydd gwariant a gododd cyn i'ch cais gael ei gymeradwyo gan Cadwyn Clwyd yn cael ei wrthod ac ni fyddwch yn derbyn 50% o werth y pryniant hwnnw

Rhaid i'r holl brosiectau llwyddiannus fod wedi'u cwblhau ac wedi hawlio'r grant erbyn 31 Rhagfyr 2022 fan bellaf

Edrychwch ar Atodiad B am fanylion llawn sut i lenwi'r ffurflen hawlio taliad, os gwelwch yn dda.

Cyllid Cyfatebol

Bydd gofyn i chi brynu'r eitemau cymeradwy ac yna darparu tystiolaeth eich bod wedi talu 100% o bris yr eitem, yna ar ôl hawlio byddwch yn derbyn 50% o werth yr eitem yn ôl gan Cadwyn Clwyd.

Adran 6: Rheolau Cymorth De Minimis Diwydiannol Cyllid Ewropeaidd

Rheolau Cymorth De Minimis Diwydiannol

Mae'r holl grantiau'n cael eu categorio fel Cymorth De Minimis Diwydiannol, yn unol â [Rheoliad y Comisiwn \(Undeb Ewropeaidd\) Rhif 1407/2013 dyddiedig 18 Rhagfyr 2013 ynghylch cymhwyso Erthyglau 107 a 108 Cytundeb Gweithredu'r Undeb Ewropeaidd o ran cymorth de minimis](#).

Rhaid i'r ymgeisydd nodi ar ei ffurflen gais yr holl gyllid de minimis ac Eithrio Symiau Cyllid Bach (SAFE) a dderbyniwyd yn ystod eu blwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. **Yr ymgeisydd sydd yn gyfrifol am sicrhau nad yw cyfanswm y cymorth de minimis ac Eithrio Symiau Cyllid Bach (SAFE) a ddyfarnwyd i'r fenter yn fwy na chyfanswm o €200,000 yn unrhyw gyfnod ariannol tair blynedd treigl.** Bydd angen i ymgeiswyr nodi'r holl gymorth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod amser penodol er mwyn sicrhau nad ydynt yn torri'r rheol de minimis. Mae cymorth de minimis yn cynnwys cymorth grant a chymorth fel gwasanaethau ymgynghoreiaeth, cyngor marchnata ac ati am ddim neu am bris gostyngol. Rhaid cynnwys yr holl gymorth de minimis a chymorth SAFE arall. Mae'r enwau eraill a ddefnyddiwyd ar gyfer dyfarnu cymorth SAFE yn cynnwys:

- 'Hawliau Arbennig Tynnu Arian' (SDR);
- 'Symiau Cymorth Ariannol Bach' (SAFA);
- 'Cymorth Ariannol Minimol' (MiFA); a
- de minimis y Deyrnas Unedig.

Bydd rhaid i'r ymgeisydd ddangos ar eu ffurflen gais pa brosesau sy'n bodoli i fonitro'r cyllid cyhoeddus a dderbyniwyd gan y fenter ac i fonitro cymorth de minimis. Rhaid i'r ymgeisydd gadw cofnodion cymorth de minimis a dderbyniwyd am 10 mlynedd. Os torrir y rheolau hyn gallai'r ymgeisydd fod yn atebol i dalu gwerth llawn y cymorth a dderbyniwyd a/neu'r pris llawn a fyddai'n daladwy o ran y gwasanaethau a dderbyniwyd. Records of aid received under de minimis must be retained by the applicant for 10 years.

Adran 7: Rhestr Wirio Cyflwyno Cais

Ni fydd ceisiadau am grant yn cael eu derbyn heb y dogfennau isod:

- ☐ Ffurflen gais wedi'i llofnodi
- ☐ Copïau dyfynbrisiau ar gyfer pob eitem y bwriedir defnyddio'r grant i'w prynu

- ☐ Tystiolaeth o gynigion cymorth ariannol – tystiolaeth cyllid cyfatebol (os yw'n berthnasol)
- ☐ Cadarnhad Cyfeirnod y Cwsmer Llywodraeth Cymru
- ☐ Cynllun Busnes
- ☐ Cyfrifon ariannol y busnes am y flwyddyn ddiwethaf
- ☐ Rhagfynegiad llif arian am y flwyddyn nesaf

Adran 8: Datganiad

Dylid llofnodi a nodi'r dyddiad ar y ffurflen gais. Derbynnir llofnodion electronig.

Trwy lofnodi a chyflwyno'r cais hwn rydych chi'n datgan ac yn cadarnhau:

- Mae gen i'r awdurdod i gyflwyno'r cais hwn ar ran y fenter a enwir fel ymgeisydd.
- Rwy'n datgan fod yr holl wybodaeth yn y ffurflen yn gywir ac y gallai gwneud datganiad ffug arwain at weithredu gan Cadwyn Clwyd yn erbyn y llofnodwr i adfer yr arian grant ynghyd â chostau, ffioedd a threuliau cysylltiedig.
- Rwyf wedi darllen a deall y telerau ac amodau ac rwy'n cadarnhau nad wyf wedi dechrau'r prosiect ac nad oes unrhyw wariant wedi'i ymrwymo na'i wario ar y prosiect.
- Rwy'n deall, os wyf yn rhoi gwybodaeth y gwn sy'n anghywir neu'n anghyflawn, bydd y grant yn cael ei hawlio yn ôl a gellid gweithredu yn fy erbyn.
- Rwy'n datgan nad yw'r cyllid cyfatebol arfaethedig ar gyfer y prosiect yn cynnwys unrhyw gronfeydd sy'n cynnwys neu sydd eisoes wedi'u defnyddio i ddenu cyllid Undeb Ewropeaidd.
- Rwy'n cytuno i ddarparu adroddiad cynnydd ysgrifenedig i Cadwyn Clwyd 3-6 mis ar ôl dyfarnu'r grant (os yw'r cais yn llwyddiannus).
- Rwy'n cytuno i Cadwyn Clwyd gadw fy manylion a'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r grant at ddibenion archwilio tan **31 Rhagfyr 2028**.
- Rwy'n deall fod rhaid i eitemau a brynir gyda'r cyllid grant gael eu defnyddio ar gyfer y pwrpas a nodwyd yn y ffurflen gais, ac os y'i gwaredir cyn pen 5 mlynedd, gellid hawlio'r cyllid grant yn ôl.

Rheolau Cymorth De Minimis Diwydiannol Cyllid Ewropeaidd

- Rwy'n deall fod y grant hwn yn ddarostyngedig i reolau Cymorth De Minimis Diwydiannol, yn unol â [Rheoliad y Comisiwn \(Undeb Ewropeaidd\) Rhif 1407/2013 dyddiedig 18 Rhagfyr 2013 ynghylch cymhwyso Erthyglau 107 a 108 Cytundeb Gweithredu'r Undeb Ewropeaidd o ran cymorth de minimis](#).
- Rwy'n deall fod rhaid i mi roi manylion yr holl gyllid de minimis/SAFE a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol yn y ffurflen gais hon, ac rwy'n datgan fod y manylion hyn yn gywir.
- Rwy'n deall, lle y cynigir cymorth de minimis, fy mod i'n gyfrifol am sicrhau na fydd y trothwy de minimis yn cael ei dorri. Yr ymgeisydd sydd yn gyfrifol am sicrhau nad yw cyfanswm y cymorth de minimis ac Eithrio Symiau Cyllid Bach (SAFE) a ddyfarnwyd i'r fenter yn fwy na chyfanswm o €200,000 yn unrhyw gyfnod ariannol tair blynedd treigl..
- Rwy'n datgan nad yw cyfanswm y cyllid cyhoeddus a ddyfarnwyd i'r fenter hon (yn cynnwys y grant hwn) yn fwy na chyfanswm o €200,000 mewn unrhyw gyfnod ariannol tair blynedd treigl.
- Rwy'n deall fod rhaid i mi sicrhau fod unrhyw sefydliad sy'n derbyn cymorth de minimis yn cadw cofnod o'r cymorth de minimis a datgan swm y cymorth i unrhyw gorff dyfarnu sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch faint o gymorth de minimis a dderbyniwyd.
- Rwy'n deall ei bod yn ofynnol i mi gyflwyno manylion y system sy'n bodoli i fonitro cymorth de minimis.

- Rwy'n deall fod rhaid cadw cofnodion cymorth de minimis a dderbyniwyd am gyfnod o 10 mlynedd.
- Rwy'n cydnabod, os nad wyf yn bodloni'r gofynion cymhwyso, neu os yw'n torri'r rheolau cymorth de minimis, gallaf/gallwn fod yn atebol i dalu gwerth llawn y cymorth a dderbyniwyd yn ôl a/neu'r pris llawn a fyddai'n daladwy fel arall o ran y gwasanaethau a dderbyniwyd.

9. Y Broses Cyflwyno Cais

Rhaid i'r busnes fedru dangos hyfywedd trwy gyfrwng cynllun busnes neu adolygiad busnes. Cwblheir y broses hon gyda chynrychiolydd Busnes Cymru. Mae ffurflenni cais yn cael eu harfarnu o ran yr agwedd dechnegol gan Busnes Cymru, cyn mynd gerbron y Grŵp Llywio a Phanel Grantiau Adnewyddu Menter. Bydd ceisiadau sy'n llwyddo yn yr arfarniad technegol yn cael eu hystyried gan y Panel Grantiau, sy'n penderfynu p'un ai i roi cymorth ariannol i brosiect ai peidio.

Bydd penderfyniadau ynghylch ceisiadau yn cael eu gwneud ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gyflwynwyd a gwiriadau diwydrwyd dyladwy. Bydd ceisiadau'n cael eu sgorio yn erbyn y meini prawf isod ar ddiben rhoi ceisiadau mewn trefn flaenoriaeth.

	Meini prawf	Sgôr
A	Arloesi	/20
B	Budd economaidd (yn cynnwys ei gyfraniad o ran swyddi, twf a mynd i'r afael â thlodi)	/20
C	Gwerth am arian	/20
	CYFANSWM	/60

Mae angen sgôr o 36 neu fwy ar gyfer ceisiadau i basio'r trothwy ar gyfer cymeradwyo

SGÔR	DOSBARTHIAD
17-20	Rhagorol – Mae'r cynnig yn bodloni'r meini prawf yn gryf ac yn gadarnhaol a darparwyd lefel dda o wybodaeth gefnogol
13-16	Da iawn – Mae'r cynnig yn bodloni'r meini prawf yn gadarnhaol, ond gyda rhai mân bryderon
9-12	Da – Mae'r cynnig yn mynd gryn ffordd i fodloni'r meini prawf sgorio yn gadarnhaol, ond gyda rhai pryderon
5-8	Gwan – Mae'r cynnig yn bodloni'r meini prawf sgorio yn wan yn unig, gyda phryderon, a phrin yw'r dystiolaeth a ddarparwyd
1-4	Gwan iawn – Mae'r cynnig yn darparu achos gwan iawn yn erbyn y meini prawf sgorio, mae pryderon cryf a phrin iawn yw'r dystiolaeth a ddarparwyd
0	Gwael – Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â'r meini prawf yn foddhaol mewn unrhyw fodd

Mae penderfyniad y Panel Grantiau yn derfynol. Os yw eich cais yn aflwyddiannus, byddwch yn derbyn neges e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau am wrthod y cais. Cewch sgwrsio â chynghorydd Busnes Cymru i ystyried ffurfiau cyllid amgen i'ch cefnogi chi.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn derbyn Llythyr Dyfarniad a Ffurflen Hawlio. Rhaid i chi ymateb i'r cynnig grant cyn pen 14 diwrnod gwaith, neu gallai'r cynnig gael ei dynnu'n ôl.

Cynhelir y broses ymgeisio mewn rowndiau, a phennir y dyddiadau cau gan y Grŵp Llywio a Phanel Grantiau Adnewyddu Menter.

10. Telerau ac Amodau

Brandio a Chyhoeddusrwydd

Mae'r Prosiect Adnewyddu Menter hwn yn rhan o brosiect LEADER Sir Ddinbych. Mae'n rhan o Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD). Mae'n ofynnol i Cadwyn Clwyd roi cyhoeddusrwydd i LEADER / UE / Llywodraeth Cymru wrth gyfathrebu'r prosiect i fuddiolwyr a/neu'r cyhoedd. Byddwn yn defnyddio logo LEADER, LIC a'r UE isod a hefyd logo Cadwyn Clwyd.



Mae'n rhan o ofynnion Cadwyn Clwyd i gyhoeddi'r cymorth LEADER / EU / LIC, byddem yn cyhoeddi gwybodaeth am rai sydd yn derbyn grant ynghyd a manylion y cytundeb. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i dderbynwyr grant:

- Gymryd rhan mewn datganiadau i'r wasg gan Cadwyn Clwyd i gyhoeddi'r gronfa a hyrwyddo straeon newyddion da am y gronfa ynghyd â'r gefnogaeth a gafwyd.
- Cymryd rhan mewn astudiaethau achos ar lein gan Cadwyn Clwyd i hyrwyddo a chyfathrebu'r gefnogaeth a gafwyd.
- Cymryd rhan yng nghyfathrebiadau cyfryngau cymdeithasol Cadwyn Clwyd i hyrwyddo a chyfleu'r gefnogaeth a gafwyd
- Cymryd rhan mewn hyrwyddiadau a chyhoeddusrwydd Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Gwledig Cymru am y prosiect a'r cymorth a gafwyd.

Anogir derbynwyr grant i roi cyhoeddusrwydd i'r cymorth a dderbynnir yn eu cyfryngau cyfathrebu eu hunain. Mewn achosion o'r fath, dylai derbynnydd y grant ddilyn y canllawiau isod:

- Cynnwys logos LEADER / UE / LLC a Cadwyn Clwyd.
- Cynnwys y testun canlynol wrth gyfathrebu:

"Mae'r prosiect hwn yn rhan o Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)"

- Cynnwys yr hashnod canlynol mewn negeseuon cyfryngau cymdeithasol #RHWYDWAITHGWLEDIGCYMRU a #CADWYNCLWYD

Am gymorth pellach, cysylltwch â Cadwyn Clwyd. Am ganllawiau cyhoeddusrwydd llawn y Cynllun Datblygu Gwledig gweler:

[Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020: canllawiau cyhoeddusrwydd | LLYW.CYMRU](#)

Y Gymraeg

Bydd Cadwyn Clwyd yn cyfathrebu ac yn hyrwyddo'r prosiect, y grantiau a ddyfarnwyd a'i ganlyniad yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Cadwyn Clwyd. Anogir derbynwyr grant i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu prosiect a ariennir gan y grant a'u gweithgareddau busnes ehangach. Mae cymorth ar gael ar [helo Blod | Helo Blod \(llyw.cymru\)](#). Mae Helo Blod yn declyn cymorth busnes a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu a chyngor am ddim i'ch helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich busnes.

Monitro a Gwerthuso

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cadw'r hawl i archwilio sut mae sefydliadau yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus. Rhaid i Cadwyn Clwyd gydymffurfio â chais archwilio yn unol ag amserlenni penodol a gellid cysylltu â'r rhai fu'n rhan o brosiectau i ddarparu tystiolaeth gwariant.

Datganiad Preifatrwydd Cadwyn Clwyd

Mae Cadwyn Clwyd yn trin preifatrwydd data yn ddifrifol iawn ac mae'n cydymffurfio â phob agwedd o fframwaith deddfwriaethol diogelu data y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Ewropeaidd (GDPR) a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig ei hun. Cewch weld ein polisi preifatrwydd yma <http://cadwynclwyd.co.uk/wp-content/uploads/Cadwyn-Clwyd-Privacy-Policy.pdf> sy'n egluro sut rydym ni'n diogelu eich hawliau personol chi.

Atodiadau

Atodiad A

Ardaloedd Cymwys

Mae'r isod yn rhestr y wardiau cymwys ym mhob sir:



Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam
Bodelwyddan	Brynffordd	Bronington
Corwen	Mynydd Bwcle	Brymbo
Canol Dinbych	Caergwrle	Bryn Cefn
Dinbych Isaf	Caerwys	Cefn*
Dinbych Uchaf/Henllan	Cilcain	Gogledd y Waun
Dyserth*	Ffynnongroyw	De'r Waun
Efenechtyd	Y Fflint - Oakenholt	Coedpoeth
Llanarmon-yn-lâl/Llandegla	Y Fflint - Trelawnyd	Dyffryn Ceiriog
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Gronant	Esclusham
Llandrillo	Gwernaffield	Dwyrain a Gorllewin Gresffordd
Llandyrnog	Gwernymynydd	Gwenfro
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	Helygain	Gogledd Gwersyllt
Llangollen	Kinnerton Uchaf	Holt
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Canol Treffynnon*	Llangollen Wledig
Rhuddlan	Dwyrain Treffynnon*	Llai
Rhuthun	Gorllewin Treffynnon*	Marchwial
Dwyrain Llanelwy	Yr Hôb	Marffordd a Hoseley
Gorllewin Llanelwy	Coed-llai	Mwynglawdd
Trefnant	Llanfynydd	Owrtyn
Tremeirchion	Yr Wyddgrug - Broncoed	Penycae a De Rhiwabon
	Dwyrain yr Wyddgrug	Ponciau
	De'r Wyddgrug	Yr Orsedd
	Gorllewin yr Wyddgrug	Rhiwabon
	Mostyn	
	Pentre Cythraul	
	Llaneurgain	
	Neuadd Llaneurgain	
	Penyffordd	
	Saltney – Cyffordd yr Wyddgrug	
	Sealand	
	Trelawnyd a Gwaenysgor	
	Treuddyn	
	Chwitffordd	

Ardaloedd Anghymwys

Mae'r isod yn rhestr y wardiau anghymwys ym mhob sir:

Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam
Canol Prestatyn	Argoed	Acton
Dwyrain Prestatyn	Aston	Parc Borrass
Prestatyn – Gallt Melyd	Dwyrain Bagillt	Brynyffynnon
Gogledd Prestatyn	Gorllewin Bagillt	Cartrefle
De Orllewin Prestatyn	Gogledd Ddwyrain Brychdyn	Erddig
Dwyrain y Rhyl	De Brychdyn	Garden Village
De'r Rhyl	Bwcle – Gorllewin Bistre	Grosvenor
De Ddwyrain y Rhyl	Bwcle - Pentrobin	Dwyrain Gwersyllt
De Orllewin y Rhyl	Canol Cei Connah	Gorllewin Gwersyllt
Gorllewin y Rhyl	Cei Connah - Golffryn	Hermitage
	De Cei Connah	Tre Ioan
	Cei Connah – Gwepra	Little Acton
	Castell y Fflint	Maesydre
	Y Fflint - Coleshill	New Broughton
	Maesglas	Offa
	Penarlâg	Pant
	Mancot	Plas Madoc
	Queensferry	Penycae
	Saltney Stonebridge	Queensway
	Ddwyrain Shotton	Rhosesni
	Shotton Uchaf	Smithfield
	Gorllewin Shotton	Stansty
		Whitegate
		Wynnstay





Atodiad B

Llenwi Ffurflen Hawlio Taliad

Cewch lenwi ffurflen hawlio unwaith rydych chi wedi talu am yr holl eitemau yn eich cais am grant gan ddefnyddio'r ffurflen grant a ddarparwyd gan Cadwyn Clwyd pan gymeradwywyd eich cais chi.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r gofynion a ganlyn wrth hawlio gan Cadwyn Clwyd:

- **Treth ar Werth (TAW):** Dim ond TAW na ellir ei hawlio yn ôl y gellir ei hawlio trwy gronfeydd Undeb Ewropeaidd. Os yw sefydliad yr ymgeisydd yn medru adfer TAW gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yna ni ellir cynnwys hyn ar y ffurflen hawlio i Cadwyn Clwyd a rhaid i'r holl gostau sy'n cael eu hawlio beidio â chynnwys TAW. Fodd bynnag, os na all sefydliad yr ymgeisydd adfer TAW, byddant yn medru hawlio hyn yn ôl gan Cadwyn Clwyd, ond bydd angen darparu datganiad ffurfiol yn esbonio pam na all y sefydliad adfer TAW.
- **Cyfeirnod y Cwsmer:** Bydd angen i bob busnes / sefydliad nodi eu Cyfeirnod y Cwsmer gan Lywodraeth Cymru yn glir ar eu Ffurflen Hawlio. Edrychwch ar adran 'Llenwi'r ffurflen gais' yn y nodiadau canllaw hyn am fanylion sut i gael Cyfeirnod y Cwsmer.
- Dylai anfonebau fod am 100% y costau yn yr hawliad grant a heb eu rhannu neu eu dosrannu ar draws cyllidebau eraill yn eich busnes / sefydliad.
- Nodwch, os gwelwch yn dda, y bydd Cadwyn Clwyd yn talu'r gyfradd ymyriad cymeradwy (50%) yr hawliad. Os ydych chi'n hawlio llai na'r swm a gymeradwywyd, yna bydd Cadwyn Clwyd yn talu 50% o'r swm a hawliwyd nid 50% o'r swm a gymeradwywyd.
- Bydd angen i'ch busnes / sefydliad gadw anfonebau gwreiddiol a datganiadau banc tan 31 Rhagfyr 2028 o leiaf, neu nes bo Cadwyn Clwyd yn cyngori y gellir eu gwaredu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr anfonebau gwreiddiol ar gael i'r archwilyr eu gweld pan fo'n ofynnol ac i gydymffurfio â gofynion cadw dogfennau'r Undeb Ewropeaidd.
- Cyflwynwch un hawliad i Cadwyn Clwyd yn unig lle bo'n bosibl, os yw eich llif arian yn caniatáu hynny. (Trafodwch hyn â Chydlynnydd y Prosiect Adfywio Menter os nad yw hyn yn bosibl, os gwelwch yn dda.)

Y dystiolaeth sy'n ofynnol wrth gyflwyno hawliad:

Yn achos pob eitem a brynwyd trwy gyfrwng y Grant Adnewyddu Menter, darparwch yr isod, os gwelwch yn dda:

1. **Copi'r anfoneb(au) a dalwyd:** yn dangos 100% o gost yr eitem sy'n cael ei hawlio. Rhaid i'r anfoneb fod yn enw eich busnes neu eich sefydliad chi. Bydd anfonebau'n cael eu gwirio i ddilysu eu bod yn unol â chais y prosiect a gymeradwywyd. Ni fydd Cadwyn Clwyd yn ystyried eitemau yn eich ffurflen hawlio nad ydynt wedi'u rhestru yn y ffurflen gais a gymeradwywyd.
2. **Datganiad(au) Banc:** i ddangos bod eich busnes / sefydliad wedi talu am yr eitem / costau sy'n cael eu hawlio. Rhaid i enw eich busnes / sefydliad, rhif y cyfrif a'r cod didoli fod yn weladwy. Mae datganiadau ar-lein yn dderbyniol ond os nad ydynt yn dangos enw eich busnes / sefydliad dylech gyflwyno un copi o ddatganiad banc hefyd, os gwelwch yn dda,

fel bod gennym ni dystiolaeth o enw'r cyfrif ac ati. Gellir cuddio / gorchuddio trafodion nad ydynt yn ymwneud â'r grant yn ogystal ag unrhyw falansau ar y datganiadau.

3. **Tystiolaeth yr eitemau a brynwyd:** Darparwch ffotograff o'r eitem a brynwyd trwy gyfrwng y grant. Os na ellir tynnu llun yr eitem, darparwch dystiolaeth addas arall os gwelwch yn dda. Gall Cydlynnydd y Prosiect Adnewyddu Menter roi cyngor i chi ynghylch beth sy'n cael ei ystyried yn dystiolaeth addas, os oes angen.
4. **Crynodeb / adroddiad ysgrifenedig** yn esbonio sut mae'r grant wedi eich cynorthwyo i gyflwyno'r broses newydd neu ddatblygu cynnyrch newydd yn eich busnes chi. Gellir cynnwys ffotograffau neu ddata rhifiadol os yw'n berthnasol.

- Rhaid i'r holl ddogfennau wedi'u sganio / e-bostio i gefnogi eich cais fod yn ddarllenadwy.
- Os yw'n bosibl nodwch y taliadau'n glir ar eich datganiadau banc (e.e. uwchleuo'r symiau perthnasol) a chyfeirio at ddogfennau fel ei bod yn hawdd eu cyfateb i bob eitem / trafodion sy'n cael eu hawlio.

Tystiolaeth caffael: Nid oes angen darparu dyfynbrisiau gyda'r ffurflen hawlio gan eu bod wedi'u darparu eisoes ar y cam gwneud cais am grant. Dylai'r holl drafodion rydych chi'n eu cynnwys yn eich hawliad fod y dyfynbris isaf ar gyfer yr eitem fel y nodwyd yn eich ffurflen gais am grant. Dylid cyflwyno'r ffurflen hawlio yn electronig ynghyd â ffurflen drosglwyddo electronig / BACS Cadwyn Clwyd, a'r dogfennau cefnogol a nodir uchod, i admin@cadwynclwyd.co.uk

Rhaid llofnodi'r Ffurflen Hawlio. Caniateir defnyddio llofnod electronig neu lofnod wedi'i deipio.

Rhaid i'r holl brosiectau llwyddiannus gael eu cwblhau a hawlio'r grant ar eu cyfer erbyn 31 Rhagfyr 2022 fan bellaf.